DEWIS GWYLLT

Pam tapio bedw?

Y fedwen yw'r goeden lydanddail fwyaf cyffredin yng Nghymru. Mae Ystadegau Coedwigaeth 2019 yn amcangyfrif bod 2,000 ha o Ystâd Coedwigaeth Llywodraeth Cymru (NRW) a 11,000 ha o goetiroedd preifat yn cael eu dominyddu gan goed bedw. Serch hynny, yn gyffredinol yng Nghymru caiff y fedwen ei hystyried fel coeden sydd â pheth gwerth neu ddim gwerth masnachol ac felly prin y caiff ei rheoli'n weithredol.

13,000 ha o goetir bedw nad yw'n cael ei werthfawrogi yng Nghymru

Mewn rhannau eraill o Ewrop, mae bedw yn adnodd sydd â gwerth uchel ac yn cefnogi ystod eang o gynhyrchion. A ellir cynhyrchu unrhyw rai o'r rhain yng Nghymru:

- darparu incwm i grwpiau coetiroedd cymunedol a pherchnogion coetiroedd eraill?
- fel cymhelliant i reoli bedw yn weithredol?
- codi ymwybyddiaeth o goetiroedd bedw brodorol nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi?

Ar ôl dwy flynedd o ymchwiliadau, mae'r prosiect Dewis Gwyllt wedi adnabod y gallai tapio bedw fod yn weithgaredd y gellid ymgymryd ag o gan grwpiau coetiroedd yng Nghymru.

Tapio yw casglu sap bedw wrth iddo godi yn y goeden am ddwy neu dair wythnos, cyn i'r dail ddod allan yn gynnar yn y gwanwyn. Nid yw tapio yn gwneud fawr o niwed i'r goeden ac os gwneir hynny'n ofalus mae'n gynaliadwy ac yn cyd-fynd â rheoli coed ar gyfer coed tân a chadwraeth.

Mae sap yn hynod fyrhoedlog ac felly mae angen ei brosesu'n syth. Mae ei brosesu yn surop yn broses artisan syml sy'n arwain at gynnyrch sefydlog a chryf y gellir ei werthu'n uniongyrchol neu ei ddefnyddio fel cynnyrch mewn cynhyrchion bwyd. Mae Llais y Goedwig yn gweithio gyda Phartneriaeth Arloesi Ewrop a Cyswllt Ffermio i ddatblygu ymhellach y prosesu sy'n digwydd ar y safle.

Mae sap bedw yn cynnwys oddeutu 1% o siwgr a gellir ei ddefnyddio mewn sawl ffordd:

- ei yfed yn ffres fel tonig iach;
- mewn cynhyrchion gwallt a chroen;
- yn grynodedig fel sylfaen i win, cwrw a diodydd;
- ei leihau i surop (fel surop Masarn ond gyda mwy o flasau cymhleth).

Mae adnoddau, rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt i'w cael ar wefan prosiect **Dewis Gwyllt**:

www.dewisgwyllt.co.uk

LLAIS Y GOEDWIG
The voice of community woodlands in Wales

wild resources limited

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DEWIS GWYLLT

Why tap birch?

Birch is the third most common broadleaf tree in Wales. Forestry Statistics for 2019 estimate that 2,000 ha of the Welsh Government Forest Estate (NRW) and 11,000 ha of private woodland is dominated by birch. However, in Wales birch is generally considered to have little or no commercial value and is seldom actively managed.

13,000 ha of undervalued birch woodland in Wales

Elsewhere in Europe, birch is a high value resource which supports a wide range of products. Could any of these be produced in Wales:

- to provide an income for community woodland groups and other woodland owners?
- as an incentive for active management of birch?
- to increase awareness of undervalued native birch woodlands?

Following two years of investigations the Dewis Gwyllt project has identified birch tapping as an activity which could be undertaken by woodland groups in Wales.

Tapping is the collection of birch sap as it rises in the tree for two to three weeks just before the leaves come out in early spring. Tapping does little damage to the tree and with care is sustainable and compatible with management of the trees for firewood and conservation.

Sap is highly perishable and so immediate processing is required. Processing into syrup is a simple artisanal process which results in a stable, durable product which can be sold directly or used as an ingredient in food products. Llais y Goedwig is working with the European Innovation Partnership and Farming Connect to further develop on site processing.

Birch sap contains around 1% sugar and can be used in many ways:

- drunk fresh as a health tonic;
- used in hair and skin care products;
- concentrated as a base for wine, beer and drinks;
- reduced to syrup (like Maple syrup but with more complex flavours).

Resources, more information and contact details are available on the **Dewis Gwyllt** project website:

www.dewisgwyllt.co.uk

LLAIS Y GOEDWIG
The voice of community woodlands in Wales

wild resources limited

Llywodraeth Cymru
Welsh Government